OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1732 (Cy.175)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) (Diwygio) 2004

Wedi'u gwneud - -	*6 Gorffennaf 2004*
Yn dod i rym - -	*23 Gorffennaf 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 23A(3) a 10(4) o Ddeddf Plant 1989(**1**), drwy hyn yn gwneud y rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) (Diwygio) 2004.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Gorffennaf 2004.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) 2001(**2**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio rheoliad paragraff 4 o'r Prif Reoliadau

2.—(1) Ym mharagraff 4(2) o'r Prif Reoliadau, ar ddechrau'r frawddeg, ac o flaen y geiriau "unrhyw blentyn", mewnosoder y geiriau "Yn ddarostyngedig i baragraff (2A),".

(2) Yn Rheoliad 4 o'r Prif Reoliadau ar ôl paragraff (2), mewnosoder y paragraff canlynol—

"(2A) Wrth gyfrifo'r cyfnod o 13 wythnos y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)(b), ni ddylid ystyried unrhyw gyfnod pan oedd y plentyn yn derbyn gofal mewn cyfres o leoliadau tymor byr nad yw'r un ohonynt yn fwy na phedair wythnos, os dychwelodd y plentyn, ar ddiwedd pob lleoliad o'r fath, i ofal ei riant, neu berson nad yw'n rhiant ond bod ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto.".

(**1**) 1989 p.41. Mewnosodwyd Adran 23A gan Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p.35). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y darpariaethau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 8(7) o Ddeddf 2000.

(**2**) O.S. 2001/2189 (Cy. 151).